


# CYNLLUN 'ECO'-NOMAIDD I DDWYFOR-MEIRIONNYDD

**MEHEFIN 2019**

**Mabon ap Gwynfor**



# Cynllun 9 pwynt i gryfhau economi etholaeth Dwyfor-Meirionnydd

Mae Dwyfor-Meirionnydd yn gyforiog o gyfoeth naturiol – boed yn adnoddau naturiol neu adnoddau dynol. Ond eto mae gogledd orllewin Cymru yn parhau i fod yn un o ranbarthau tlotaf gogledd a gorllewin Ewrop.

Yn wir yr etholaeth hon sydd gyda'r incwm y pen isaf drwy holl wledydd Prydain, £420 yr wythnos ar gyfartaledd, ond ar y llaw arall roedd cyfartaledd pris ty yn Abersoch ac Aberdyfi yn y flwyddyn diwethaf yn £325k.

Canlyniad hyn yw bod canran uchel o'n hieuenctid yn symud allan i ganfod gwaith, ac mae'r cyflogau isel sydd yn cael eu cynnig yma yn golygu na all pobl leol gystadlu am dai, yn aml iawn, oherwydd nad yw'r farchnad yn cael ei reoleiddio.
Pen draw hyn ydy colli iaith a diwylliant.

Rhaid felly mynd i'r afael a'r cwestiwn economaidd a chymryd camau i ddatblygu economi gryfach.

Mae'r Cyngor Sir, o dan arweiniad Plaid Cymru, yn gweithio'n ddygn i ddenu buddsoddiadau ac i sicrhau fod cyfleodd yma i ddatblygu busnes. Mae'r ffaith bod Gwynedd wedi cynyddu cyflogau isaf gweithwyr y Sir i fod yn gyflog byw go iawn, a pholisïau caffael yn cefnogi busnesau lleol i'w croesawi. Ond mae gwaith clodwiw Plaid Cymru ar y Cyngor yn cael ei lesteirio gan ddiffyg arweiniad gwleidyddol o du Llywodraeth Cymru a diffyg diddordeb llwyr Llywodraeth San Steffan.

Bwriad y cynllun yma yw canfod ffyrdd o fuddsoddi yn ein doniau a chyfoeth naturiol gynhenid tra hefyd yn sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Mae hanes diweddar Ford ym Mhenybont ar Ogwr yn dangos, eto fyth, y perygl o fuddsoddi mewn cwmniau mawr tramor. Rhaid dangos hyder yn ein pobl a'n cymunedau. Dyna fwrdwn y ddogfen hon.



**2. Mabon ap Gwynfor**

Yn y ddogfen hon byddaf yn cyflwyno rhai syniadau - 9 pwynt - fyddai, o'u gweithredu, yn cryfhau ein heconomi, yn arwain at greu swyddi, ac yn rhoi fwy o bres ym mhocedi pobl Dwyfor-Meirionnydd.

1. Cronfa Drawsnewidiol
2. Gwefru Gwynedd
3. Isadeiledd
4. Datganoli
5. Rheilffyrdd
6. Amaethyddiaeth
7. Adeiladu
8. RiverSimple
9. Perchnogaeth



## Cronfa Drawsnewidiol

Mae'r galw am annibyniaeth yn cynyddu'n ddyddiol. Ond daw gwir annibyniaeth wrth i ni feddwl a gweithredu fel cenedl annibynnol. Dyna beth mae cymunedau Dwyfor-Meirionnydd wedi bod yn eu gwneud ers sawl cenhedlaeth wrth i bobl ail adeiladu eu cymunedau o'r gwaelod i fyny.

Dyna hanes Awen Meirion, Antur Aelhaearn, Antur Stiniog, Nant Gwrtheyrn, Hufenfa De Arfon, Tafarn y Fic, Tafarn yr Heliwr, Tafarn y Plu, Pengwern a nifer o enghreifftiau eraill. Mae pobl - ein hadnodd mwyaf gwerthfawr un - wedi mynd ati i gymryd rheolaeth a buddsoddi'r ychydig sydd ganddynt, boed yn gyfalaf, yn amser neu'n allu, i fyny nad yw eu cymunedau am farw.

Mae'r rhain yn enghreifftiau o arfer da y dylid eu rhannu er mwyn datblygu eraill.
Oherwydd y ffordd orau o gryfhau'r economi yw trwy ei adeiladu o'r gwaelod i fyny. Mae mentrau cydweithredol cymunedol yn llawer mwy cadarn ac wedi eu gwreiddio yn y gymuned, yn hytrach na chwmnïau rhyngwladol sydd yn cael eu denu gydag addewidion o bres am ddim cyn ail-leoli i rywle arall pan fo'r gefnogaeth ariannol yn sychu i fyny.

Mae staff a chwsmeriaid mentrau o'r fath hefyd yn llawer mwy ffyddlon a thriw, gan fod y busnes yn rhan mor bwysig i'r gymuned.

Mae'n gwneud synnwyr economaidd o ran buddsoddiad arian cyhoeddus hefyd. Dim ond 44% o gwmnïau preifat sy'n goroesi blynyddoedd cyntaf eu bodolaeth, tra bod dros 80% o gwmnïau cydweithredol yn llwyddo ac yn mynd ymlaen i fodoli am flynyddoedd.

Rhaid felly buddsoddi yn ein cymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo £0.5bn ar gyfer datblygu a chynorthwyo prosiectau cydweithredol cymunedol, wedi cael eu harwain gan y cymunedau eu hun. Mae hyn yn gydnaws gyda chamau sydd eisoes ar droed. Mae'r Llywodraeth eisoes yn ariannu Sefydliadau Gofal Cydweithredol, tra bod disgwyl i awdurdodau lleol gefnogi datblygu cwmnïau cydweithredol yn y sector gofal.

Ni fyddai'r arian yn cael ei ragnodi, gan y byddai'n llwyr ddibynnol ar y sector a'r gymuned.

Byddai rhaglen o'r fath, wedi ei weinyddu yn gywir, gyda'r gallu i greu cannoedd o swyddi yn Nwyfor Meirionnydd.



## Gwefru Gwynedd

Mae Cymru eisoes yn allforio fwy o drydan na'r hyn yr ydym yn ei ddefnyddio. Mae Cymru ymhlith yr allforwyr mwyaf o drydan yn y byd. Mae'r un yn wir am Ddwyfor-Meirionnydd hefyd. Mae potensial yr ardal yma i gynhyrchu trydan yn anferthol.

Mae'r isadeiledd a chapasiti yma eisoes i gynhyrchu 20,000kw o drydan drwy Hydro yn unig. Mae hyn yn ddigon i ddiwallu anghenion trydan bron pob tŷ yn yr etholaeth. Hydro yn unig yw hyn. Mae capasiti presennol photovoltaic yr etholaeth gyda'r gallu i gynhyrchu tua'r un maint. Heb son am wynt a llanw a thrai.

Ond nid cymunedau Dwyfor-Meirionnydd sy'n elwa o hyn.

Un drafferth y mae mentrau o'r fath yn ei gael ydy cael tir. Dylid felly sicrhau fod Llywodraeth Cymru yn rhyddhau tir sydd y neu ofal at ddibenion datblygu cwmnïau o'r fath.

Mae menter newydd Ynni Twrog yn dangos sut all cymunedau gydweithio er budd cyffredin. Mae Ynni Llyn, Ynni Ogwen, a Chwmni Trydan Corwen yn enghreifftiau y gellir eu dilyn.

Ond ymhellach i hyn, mae angen datblygu gridiau lleol. Mae angen datganoli OFGEM yn llwyr a rhoi'r gallu i Gynulliad Cymru i redeg y rhwydwaith Trydan yma. O wneud hyn, byddai llai o drydan yn mynd ar goll (mae dros 5% o drydan yn cael ei golli wrth deithio pellteroedd o'r man cynhyrchu i'r cartref).

Byddai cwmnïau ynni cydweithredol lleol yn darparu refeniw cymunedol sylweddol. Ond o ddatblygu gridiau lleol, gellir darparu ynni yn syth i'r cartref, gan olygu mwy o arian a llai o wariant, a chreu swyddi cynna a chadw.

Amcangyfrifir fod pob cymuned yng Nghymru yn gwario ar gyfartaledd tua £2m y flwyddyn ar drydan i gartrefi. Byddai'r arian yma felly yn cael ei fuddsoddi yn ôl i gymuned sydd yn datblygu'r gallu i gynhyrchu ei thrydan ei hun.

Yn ogystal â hyn dylid gwahodd Prifysgol Caerdydd i ymestyn eu hymchwil i'r defnydd o wres dwr ein mwyngloddiau.

Mae prosiectau llwyddiannus wedi cael eu datblygu ar draws y byd yn defnyddio'r gwres o dan y ddaear i wresogi tai. Mae natur ol-ddiwydianol rhannau o'r etholaeth yn berffaith i ddatblygu prosiect o'r fath, fydd yn arwain at wresogi tai yn yr ardaloedd hynny gan dynnu pobl allan o dlodi tanwydd a rhyddhau fwy o'u harian iddynt wario'n eu cymunedau. Bydd hyn yn ei dro yn cynnal swyddi manwerthu lleol yn ardaloedd megis Ffestiniog a Chorris.

Byddwn hefyd yn ymladd i sefydlu campws ar gyfer Prifysgol Mondragon yn yr etholaeth, i ddathlu rôl cwmnïau cydweithredol yr etholaeth ac i'w caniatáu i chwarae rhan yn y campws er mwyn rhannu arfer da.

## Isadeiledd

Mae’r etholaeth hon wedi dioddef yn ddybryd o dan wariant cyson yn ei hisadeiledd. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud pob dim posib i ddenu buddsoddiad a datblygu ffyrdd, pontydd, ac adeiladau cyhoeddus, ond nid yw’r ymroddiad yma gan yr Awdurdod Lleol yn cael ei gyfateb gyda chymorth o du’r ddwy Lywodraeth ar bob pen i goridor yr M4.

Mae gwariant ar isadeiledd yn lluosogydd, ac amcangyfrifa’r IPPR fod buddsoddiad mewn isadeiledd yn dod ag X1.4 o’i werth yn ôl i’r economi.

Mae angen felly sicrhau fod gwariant y Llywodraeth ar isadeiledd yn cael ei rannu’n deg trwy wledydd y Deyrnas Gyfunol a thrwy Gymru.

Mae’r etholaeth hon yn etholaeth forol, ac iddi nifer o drefi porthladd bychan. Ond eto trefi glan mor ydynt bellach, ac nid porth i’r byd. Mae angen rhaglen o fuddsoddiad yn ein porthladdoedd bychain er mwyn datblygu eu rôl draddodiadol.

Byddai gwella argaeledd band-llydan a derbyniad ffon yn chwyldroadol i economi’r ardal.

Yn ol yr ystadegau diweddaraf mae 17.1% o holl weithlu Dwyfor-Meirionnydd yn hunangyflogedig. Mae hyn I’w gymharu a 5.8% trwy Gymru a 7.1% trwy’r Deyrnas Gyfunol.

Mae cynllun Llywodraeth Cymru i dalu BT i sicrhau bod ein cymunedau yn derbyn Band Llydan wedi methu nifer o’n cymunedau gwledig. Er hyn mae nifer o gymunedau wedi mynd ati ar eu liwt eu hun i greu rhwydwaith ddigidol well na’r hyn a gynigir gan BT/Llywodraeth Cymru. Mae cwmni Guifi yng Nghatalunya wedi arwain y ffordd wrth ddatblygu rhwydweithiau telegyfathrebu cymunedol yng nghefn gwlad Catalunya.

Mae angen dilyn model Guifi, ac i Lywodraeth Cymru gyfrannu cyfalaf ac arbenigedd i alluogi ein cymunedau ni i ddatblygu rhwydwaith gyffelyb yma. Byddai hyn yn galluogi gweithwyr i weithio o adref; ac yn galluogi entrepreneuriaid y fro i ddatblygu cwmnïau lleol yn hyderus fod ganddynt y gallu i gyfathrebu yn ddiffwdan gan gael eu cynnyrch i’r farchnad.




## Datganoli

Mae Plaid Cymru wedi bod o blaid datganoli erioed. Un cam ar hyd ffordd hir iawn oedd buddugoliaeth ymgyrch 1997 i sefydlu Cynulliad Cenedlaethol a datganoli peth grym i Gymru. Ond nid terfyn y daith yw Caerdydd. Fel plaid sydd yn credu mewn datganoli, rhaid i ni weld y datganoli hwnnw yn parhau y tu hwnt i Gaerdydd.

Mae angen i Lywodraeth Cymru ddatganoli grym pellach i'r Cynghorau Sir, a sicrhau'r ariannu cyfatebol. Mae angen i Lywodraeth Cymru anelu i gynyddu'r arian i Lywodraeth leol i o leuaf 1% uwchben chwyddiant, er mwyn sicrhau fod gan y Cynghorau Sir gapasiti i fuddsoddi mewn prosiectau lleol. Dylai'r arian yma gael ei roi fel rhan o'r RSG heb ei glustnodi gan y Llywodraeth, gan roi'r rhyddid i'r Cynghorau Sir i'w wario yn unol â'u blaenoriaethau hwy. Byddai hyn yn golygu miliynau yn ychwanegol y flwyddyn i Gyngor Gwynedd.

Yn ogystal â hyn rhaid dod a swyddfeydd a swyddi ein cyrff cyhoeddus i Wynedd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar eu bod nhw am sefydlu Arolygydd Cynllunio annibynnol i Gymru. Dylid sefydlu'r swyddfa yn yr etholaeth hon. Nid yn unig fod cam o'r fath yn dod a swyddi o ansawdd i'r ardal, ond mae hefyd yn golygu fod gan y swyddogion fyd-olwg wahanol. Mae'n fyd-olwg trwy brism cymunedau Cymraeg, yn hytrach nag un y 'bybl' yng Nghaerdydd.

Mae gan Llywodraeth San Steffan dros 500 o gyrff cyhoeddus a hyd braich, ac mae gan Llywodraeth Cymru tua 30 o gyrff. Ble mae'n bosib dylid sicrhau fod y cyrff yma, ynghyd a sefydliadau cyhoeddus eraill, yn cael eu lleoli y tu allan i Gaerdydd.



## Rheilffyrdd

Er gwaethaf ymdrechion Beeching, mae'r etholaeth yn parhau i gael ei gwasanaethu gan ddwy reilffordd, ac mae rheilffyrdd arfordir y gogledd a chanolbarth Cymru yn cynnig cyfleoedd economaidd o bwys hefyd. Y Deyrnas Gyfunol ydy'r unig wladwriaeth yn Ewrop sydd ddim yn defnyddio ei rhwydwaith trenau ar gyfer ffreit. Daeth hyn yn sgil preifateiddio'r rhwydwaith yn yr 1980au.

Byddai datblygu'r gallu i gario ffreit ar hyd rheilffyrdd y gogledd a'r canolbarth yn rhoi hyder i fusnesau fedru agor ffatrïoedd yn yr ardal, tra ar yr un pryd yn rhoi hwb economaidd i fusnesau ffreit ffordd leol megis Hughes Ffestiniog ac OJ Jones, Porthmadog.

Mae yna alwadau wedi bod eisoes i gynyddu llwyth a chapasiti Rheilffordd Ffestiniog. Mae sawl adroddiad eisoes wedi cael eu cyhoeddi yn son am fanteision hyn. Mae angen rhagor o waith ymchwil i weld beth yw'r posibilrwydd o ddatblygu capasiti rheilffyrdd Ffestiniog a Phwllheli oherwydd problemau strwythurol fyddai'n golygu buddsoddiad arianol anferthol. Byddwn yn galw am astudiaeth ddichonoldeb i'r ddwy linell yma er mwyn gweld beth fyddai gwerth economaidd datblygiadau o'r fath.

Ond yn sicr rhaid mynnu fod Terminalau Intermodal yn cael eu datblygu ym Mangor a/neu Gyffordd Llandudno ar reilffordd y gogledd a ger Caersws ar reilffordd Cambrian. Mae gan y ddwy reilffordd yma'r gallu eisoes i ddatblygu gwasanaeth ffreit. Rhaid ond datblygu'r terminalau (gelwir yn 'intermodal terminals' neu Trans-shipment Terminals' pan fo'r ffordd yn dod i gyfarfod a'r rheilffordd).

Mae datblygiadau o'r fath yn cael eu harwain gan alw yn y farchnad, ond o fuddsoddi arian cyhoeddus i ddatblygu'r terminalau, byddai hyn yn rhoi hyder i gwmnïau gan greu awyrgylch ffafriol i'r farchnad fedru fuddsoddi.

Nid yn unig y byddai o fudd ar gyfer y farchnad Brydeinig, ond byddai'n golygu fod cynnyrch o Wynedd yn medru cyrraedd y farchnad Ewropeaidd ynghynt, trwy fod y rheilffyrdd yn cysylltu yn syth a thraffig rhyng-gyfandirol Iwerddon-Twnel y Sianel.

Ymhellach i hyn byddai datblygu Terminal Intermodal yn creu nifer o swyddi uniongyrchol yn y terminalau hynny, a hefyd yn ychwanegiad pwysig i'r frwydr amgylcheddol drwy olygu fod mwy o gynnyrch yn cael eu cario ar hyd ein rheilffyrdd.



## Amaeth

Mae sector amaeth yn wynebu'r dyfodol mwyaf ansicr mewn hanes amaethyddiaeth fodern. Rhwng Brexit ar yr un llaw a Llywodraeth Lafur sydd ddim yn deal y gymuned amaethyddol ar y llall, mae dyfodol llwm iawn i'r ffermwyr mynydd. Mae Brexit a'n tir, papur y Llywodraeth ar drawsnewid amaethyddiaeth yn sgil Brexit yn wirioneddol frawychus, a gall hwn ar ei ben ei hun arwain at nifer o ffermydd yn methu a pharhau.

Wrth gwrs fod gan y sector gyhoeddus rôl i'w chwarae. Rhaid sicrhau fod polisïau caffael cyhoeddus yn gryfach, gan sicrhau mai cynnyrch amaethyddol Cymreig sydd ar gynnig yn y sector gyhoeddus. Os ydym yn aros yn yr UE neu yn rhan o raglen ariannu Brydeinig Newydd, rhaid i'r gyfundrefn fod yn fwy hyblyg, a galluogi ein ffermydd i ddatblygu cynnyrch sydd yn gydnaws a'r tir.

Hyd yma mae'r UE yn rhoi sybsidi i gynhyrchu cig oen ac eidion. Mae llaeth yn ei chael hi'n well ar hyn o bryd, ond dim ond rhai blynyddoedd yn ôl roedd llaeth yn dioddef yn aruthrol oherwydd grym y cwmnïau prynu mawrion.

Mae angen i'r RDP (Rhaglen Datblygu Gwledig) gael ei rannu'n decach er mwyn i bob fferm gael budd ohono. Dylid hefyd defnyddio'r pres yn well er mwyn helpu i ddatblygu cynnrych a marchnadoedd newydd, gan roi fwy o hyblygrwdd i'r fferm.

Dywed adroddiad gan Brifysgol Bangor fod tir Cymru yn berffaith ar gyfer tyfu cnwd fflacs, ond nad oedd yn broffidiol i wneud hynny. Byddai rhoi hyblygrwydd yn y system er mwyn galluogi ffermydd i arbrofi gyda thyfu cnydau fel yma, ynghyd a datblygu cynnyrch eraill a defnyddio technegau newydd, yn agor marchnadoedd newydd i ffermydd Cymru gan roi gwell sicrwydd, yn lle bod eu hwyau i gyd ym masged y cig coch. I'r diben yma bydd angen i'r Llywodraeth sicrhau fod Prifysgolion a cholegau amaethyddol yn cael y buddsoddiad cywir i'w galluogi i weithio gyda'r sector amaeth i ddatblygu'r cynnyrch mwyaf addas.

Mae'n gwbl hanfodol i ni sicrhau parhad y fferm deuluol Gymreig, gan eu bont yn chwarae rhan mor bwysig yn ecoleg ddiwylliannol y genedl.



## Adeiladu

Nid yw cwmnïau lleol yn aml yn medru cystadlu gyda chwmnïau mawrion, allanol wrth wneud cais am waith adeiladu sylweddol. Yn ogystal â hyn mae gan gwmnïau adeiladu mawr ddigon o gyfalaf, neu gredyd, wrth gefn i'w galluogi i ddatblygu ystadau mawr neu brosiectau mawr. Mae hyn yn golygu fod cwmnïau lleol yn colli allan.

Rhaid newid y drefn gynllunio a chontractio felly. Dylid edrych ar sut y gellir torri'r contractau yma i fyny, pan yn bosib, a rhoi trefn mewn lle i alluogi casgliad o gwmnïau bychain i ddod at ei gilydd i wneud cais. Gellir rhoi mwy o bwysau ar werth economaidd cwmni lleol yn hytrach na'r gwerth ariannol eu cais.

Pan fo'n dod i ddatblygu tai rhaid edrych ar y posibilrwydd i ganiatáu i'r system hyrwyddo cwmnïau adeiladu lleol, ac nid cwmnïau adeiladu mawr o'r tu allan.



## River Simple

Gwyddonydd o Gymro, William Robert Grove, o Abertawe, ddyfeisiodd y gell danwydd hydrogen, ac mae Cymru yn parhau i arwain y byd yn y defnydd o hydrogen fel ffynhonnell ynni. Mae cwmni Riversimple, yn Llandrindod, wedi datblygu car hydrogen ac wrthi’n gorffen eu cynlluniau i ddod a’r car i’r farchnad agored. Maent yn y broses o ddatblygu fan hefyd. Eu bwriad yw agor ffatri yn Llandrindod I adeiladu 5,000 o geir y flwyddyn. Byddai hyn yn creu 400 o swyddi uniongyrchol a thua’r un faint o swyddi anuniongyrchol Byddai hefyd yn golygu fod hyd at 13,000 tunnell o garbon yn cael ei dynnu allan o’r amgylchedd bob blwyddyn, gan fod 5,000 yn llai o geir tannwydd ffosil ar ein ffyrdd.

Mae’r cwmni yn gwbl ymrwymedig i Gymru. Rhaid sicrhau fod y cwmni yn dod yn rhan o Gais Twf Canolbarth Cymru er mwyn eu galluogi i gael y £60m angenrheidiol i ddatblygu’r ffatri a chael y car i’r farchnad. Byddwn hefyd yn datblygu'r berthynas rhwng y cwmni a Pharth Menter Eryri er mwyn eu galluogi i orffen eu gwaith ymchwil ar y fan ac agor eu ffatri yn yr ardal hon, fyddai’n arwain at greu cannoedd o swyddi o safon uchel yn yr ardal hon.



## Perchnogaeth

Mae cwmni Brighter Foods, Tywyn, yn enghraifft o sut mae rhoi rheolaeth i'r gweithlu yn medru gwyrdroi llwyddiannau cwmni yn dilyn ymadawiad Halo Foods chwe mlynedd yn ôl.

Mae angen i Lywodraeth Cymru sefydlu adain Newydd i Fanc Datblygu Cymru gydag arbenigedd a chronfa wrth gefn, fydd yn cynghori a chynorthwyo gweithlu busnesau sydd yn mynd i'r wal er mwyn ceisio sicrhau parhad y busnes a bod y sgiliau lleol sydd wedi cael eu datblygu yn aros yn y cwmni a'r ardal.

Byddai datblygiad o'r fath wedi bod o fudd i gwmni trydanol Falconer, wrth i'r cwmni yno ddirwyn i ben. Mae'n wych fod y gweithwyr wedi cael Gwaith gyda AER, cwmni lleol arall, ond byddai rhoi cymorth iddynt gymryd perchnogaeth o'r cwmni ai ail strwythuro wedi golygu fod yna le i 6 trydanwr arall yn yr ardal.

